

Cymorth Cymru



Arbenigwyr trwy Brofiad

Experts by Experience



Cyflwyniad

Sefydlwyd y prosiect Arbenigwyr trwy Brofiad i rymuso pobl a chanddynt brofiad o wasanaethau digartrefedd a chymorth tai i'w galluogi i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer ledled Cymru. Caiff y prosiect hwn ei gydlynu gan **Cymorth Cymru**, y corff sy'n cynrychioli darparwyr gwasanaethau ym meysydd digartrefedd, tai a chymorth yng Nghymru.

Mae pedwar prif nod i'r prosiect:

- Darparu cyfleoedd i bobl a chanddynt brofiad byw o wasanaethau digartrefedd a chymorth tai i'w galluogi i rannu eu barn a'u profiadau.
- Sicrhau bod barn a phrofiadau pobl yn cael eu cyfathrebu i ddarparwyr gwasanaethau a rhai sy'n gwneud penderfyniadau ledled Cymru.
- Darparu cyfleoedd i bobl a chanddynt brofiad byw i ennill hyder, sgiliau a gwybodaeth a fydd yn eu helpu i fynegi eu barn a dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.
- Annog darparwyr cymorth i gynnwys pobl a chanddynt brofiad byw mewn penderfyniadau ynghylch eu gwasanaethau.

Beth rydyn ni'n ei olygu wrth ddweud 'Arbenigwyr trwy Brofiad'?

Yng nghyd-destun y prosiect hwn, Arbenigwyr trwy Brofiad yw pobl sydd wedi cael profiad o ddiartrefedd neu brofiad o ddefnyddio gwasanaethau cymorth yn gysylltiedig â thai. Rydyn ni o'r farn eu bod yn arbenigwyr o ran eu profiadau eu hunain, ac yn darparu mewnwelediad gwerthfawr ynghylch sut y dylem ddatblygu polisi a gwasanaethau yng Nghymru.

Sut y gallwch chi gadw mewn cysylltiad â'r prosiect?

Gwefan Arbenigwyr trwy Brofiad: Rydyn ni wedi creu **gwefan** bwrpasol lle gall pobl ddysgu mwy am y prosiect, sut i gymryd rhan, pa gyfleoedd a digwyddiadau sydd ar y gweill, a chael cyfle i ddarllen ein hadroddiadau diweddaraf.

Rhestr Bostio: Gall cyfranogwyr hefyd ymuno â'n **rhestr bostio** i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect.



Cefndir

Pwy yw Cymorth Cymru?

Cymorth Cymru yw'r corff trosfwaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd a chymorth ym maes tai yng Nghymru. Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein haelodau a'r bobl maent yn estyn cymorth iddynt.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, ein haelodau a'n partneriaid i greu newid. Credwn y gallwn, gyda'n gilydd, gael mwy o effaith ar fywydau pobl.

Rydym yn awyddus i fod yn rhan o fudiad cymdeithasol sy'n rhoi terfyn ar ddigartrefedd a chreu Cymru lle gall pawb fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a ffynnu yn eu cymunedau.

Pam y datblygwyd y prosiect?

Yn Cymorth rydyn ni'n werthfawrogol iawn o farn pobl a chanddynt brofiad byw, ac yn teimlo'n angerddol ynghylch rhoi llwyfan i bobl sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Yn 2020 fe gwrddon ni â thua 80 o bobl a chanddynt brofiad byw, a gofyn iddynt sut, yn eu barn hwy, y dylen ni roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru. Cyflwynwyd yr **adroddiad** dilynol i Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

Yn ddiweddarach, argymhellodd y **Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd** y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer pobl a chanddynt brofiad byw i ddylanwadu ar bolisi – a chytunodd y Gweinidog. O ganlyniad, aethom ati i ddatblygu'r cynnig ar gyfer y prosiect hwn.

Sut mae'r prosiect yn cael ei ariannu?

Ariennir y prosiect gan yr **Oak Foundation** a Llywodraeth Cymru.

A fydd modd i gyfranogwyr neu weithwyr cymorth gyflwyno adborth?

Wrth gwrs. Mae hwn yn brosiect cydweithredol rhwng pobl a chanddynt brofiad byw o ddigartrefedd, ein haelodau, a Cymorth Cymru. Byddwn bob amser yn agored i dderbyn adborth gan Arbenigwyr trwy Brofiad, a bydd cyfleoedd i gyfranogwyr roi sylwadau ar y digwyddiadau a gynhaliwyd, a beth allem ni ei wneud i'w gwella. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw sylwadau gan weithwyr cymorth ynghylch sut i ymgysylltu â'r bobl maent yn eu cefnogi.



Cyfleoedd

Rydym yn awyddus i rymuso pobl trwy roi cyfleoedd iddynt i ennill hyder, datblygu eu sgiliau a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Gwyddom y bydd pobl yn dymuno ymgysylltu â'r prosiect mewn gwahanol ffyrdd, felly byddwn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan. Gwyddom hefyd fod bywyd yn gallu newid ar amrantiad, felly gall pobl ddod yn rhan o'r prosiect pryd bynnag a sut bynnag sy'n gyfleus iddyn nhw.

Bydd y cyfleoedd hyn yn cael eu strwythuro o gwmpas dwy brif thema:

Codwch eich llais

Un o nodau allweddol y prosiect hwn yw darparu cyfleoedd i bobl a chanddynt brofiad o wasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai i godi eu lleisiau a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Arolygon electronig
- Trafodaethau ar-lein ac wyneb yn wyneb
- Grwpiau ffocws
- Cyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru
- Cyfarfodydd gydag Aelodau o Senedd Cymru
- Aelodaeth o'r Y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd
- Panel Arbenigwyr Cymorth

Arbenigwyr Academi

Un arall o nodau allweddol y prosiect hwn yw darparu cyfleoedd i bobl a chanddynt brofiad byw i ennill hyder, sgiliau a gwybodaeth a fydd yn eu helpu i godi eu llais a dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Cyfleoedd am hyfforddiant
- Teithiau o amgylch Senedd Cymru
- Gweithdai gyda sefydliadau gweithredu
- Sgyrsiau gyda phobl ysbrydoledig neu ddylanwadol

Ymunwch â'n cylchlythyr i dderbyn gwybodaeth am yr holl gyfleoedd sydd ar y gweill.



Cydnabod a gwobrwyo rhai sy'n cymryd rhan

Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r amser a'r arbenigedd y bydd pobl yn ei roi i'r prosiect hwn, ac yn awyddus i sicrhau ein bod yn cydnabod a gwobrwyo pobl am eu cyfraniadau.

Pam rydyn ni'n talu Arbenigwyr trwy Brofiad

Rydyn ni'n awyddus i dalu pobl er mwyn dangos ein bod yn gwerthfawrogi eu hamser a'u harbenigedd. Fodd bynnag, un o'n hystyriaethau allweddol yw sicrhau nad ydym yn cael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol pobl os ydynt yn derbyn budd-daliadau lles.

Rydym wedi siarad gydag arbenigwyr o sefydliadau sy'n cynghori pobl ar faterion lles ac yn rhedeg prosiectau tebyg gyda phobl a chanddynt brofiad byw, i geisio sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniad cywir. Yn seiliedig ar ein hymchwil, credwn mai'r dull gorau yw cyflwyno tocynnau rhodd i bobl sy'n rhoi eu hamser a'u harbenigedd. Byddwn yn cynnig nifer o wahanol docynnau rhodd, fel bod pobl yn gallu dewis ble a sut maen nhw'n eu gwario.

Byddwn yn darparu tâl ar wahanol lefelau yn ôl y math o ymgysylltiad neu weithgaredd mae'r person yn cymryd rhan ynddo. Er enghraifft, bydd pobl sy'n eistedd ar y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai, neu ar ein Panel Arbenigwyr, yn cael cynnig tocynnau rhodd sy'n gyfwerth â Chyflog Byw. Yn achos gweithgareddau eraill, megis cymryd rhan mewn arolygon byr, byddwn yn cynnwys enwau pobl mewn raffl i ennill tocyn rhodd.

Dulliau eraill o gydnabod rhai sy'n cymryd rhan

Byddwn yn cydnabod cyfranogiad mewn dulliau eraill, megis darparu tystysgrifau ar gyfer y cyfranogwyr, a rhoi cyfle i bobl gael eu henwi mewn adroddiadau y buont yn cyfrannu iddynt, os ydynt yn dymuno hynny. Mae croeso i chi roi gwybod i ni os oes gennych syniadau eraill am ddulliau o gydnabod pobl sydd wedi cymryd rhan.



Tosturiol, cefnogol, cynhwysol a diogel

Rydym yn awyddus i sicrhau bod ymwneud pobl â'r prosiect hwn yn brofiad positif, a byddwn yn gwneud popeth posibl i fod yn dosturiol, cefnogol, cynhwysol a diogel.

Tosturiol a thrawma-wybodus

Gwyddom y bydd llawer o bobl wedi cael profiad o drawma, ac rydym yn awyddus i sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo'n ddiogel ac na fyddant yn ailbrofi trawma wrth rannu eu sylwadau a'u profiadau. Byddwn yn gweithio mewn modd seicolegol-wybodus, sy'n golygu y byddwn yn adeiladu perthynas gyda phobl, gan sicrhau bod unrhyw amgylcheddau ffisegol neu ar-lein yn ddiogel a chroesawgar, a bod ein cyfathrebu'n glir, yn gyson ac yn dangos parch. Byddwn hefyd yn gweithio gyda gweithwyr cymorth i geisio sicrhau bod cyfranogwyr yn derbyn y cymorth mae arnynt ei angen.

Cyfrinachedd a bod yn anhysbys

Rydym am i gyfranogwyr fod mor agored a gonest ag y bo modd wrth fynegi eu barn a'u profiadau. O ganlyniad, byddwn yn sicrhau bod adborth o arolygon grwpiau ffocws a chyfweliadau yn gwbl ddi-enw. Ni fyddwn yn priodoli sylwadau i unigolion heb gael caniatâd penodol ganddynt. Yr unig amser y byddwn yn rhannu unrhyw bryderon yw os ydym o'r farn ei fod yn fater yn ymwneud â diogelu.

Amrywiaeth a chynhwysiant

Deallwn y bydd gan wahanol grwpiau o bobl safbwyntiau gwahanol a phrofiadau gwahanol o wasanaethau, ac mae'n bwysig ein bod yn adlewyrchu hyn yn ein prosiect. Gwyddom hefyd y gall anghenion pobl fod yn wahanol ac y gallant fod â rhwystrau gwahanol yng nghyd-destun ymgysylltu. Rydym wedi siarad gyda, ac yn parhau i weithio gyda, sefydliadau sy'n arbenigo mewn meysydd penodol ac yn cefnogi grwpiau penodol, yn cynnwys rhai sydd wedi goroesi cam-drin domestig, y gymuned LHDTC+, a phobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Rydym yn awyddus i ddarparu gofod diogel fel bod modd i bobl o bob cefndir a phrofiad gymryd rhan.

COVID-19

Wrth i COVID-19 barhau i fod o'n cwmpas yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod ein cyfranogwyr yn teimlo'n ddiogel. Byddwn yn gwneud hyn trwy gynnig ymgysylltiad ar-lein trwy gyfrwng arolygon a galwadau fideo, a lle bo hynny'n briodol byddwn yn cydlynu sesiynau wyneb yn wyneb, naill ai un-i-un neu mewn grŵp bychan gan ymbellhau'n gymdeithasol. Yn Cymorth rydym yn cadw'n gyfredol gyda datblygiadau COVID, a bob amser yn sicrhau ein bod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych unrhyw syniadau neu sylwadau ynghylch sut y gallwn sicrhau bod y prosiect yn dosturiol, cefnogol, cynhwysol a diogel, gadewch i ni wybod trwy ebostio EBE@cymorthcymru.org.uk



www.cymorthexperts.cymru



EBE@cymorthcymru.org.uk



[@CymorthCymru](https://twitter.com/CymorthCymru)



Cymorth Cymru



Arbenigwyr trwy Brofiad

Experts by Experience